Adran Gwaith a Phensiynau

# Cyflwyniad i'r **Taliad Tanwydd Gaeaf**

Hawdd i'w Ddarllen



Ein cyfeirnod: **WFP1WER** 12/24

# Cynnwys


**1**

Adran Gwaith a Phensiynau

**Cyflwyniad**

Tudalen 4

**2**



**Pwy all gael y Taliad Tanwydd Gaeaf**

Tudalen 5


**3**




**Faint o Daliad Tanwydd Gaeaf a gewch**

Tudalen 7

**4**



**Eich taliad a phryd y cewch**

Tudalen 8

# Cynnwys


5



**Os ydych yn byw dramor**

Tudalen 9

6




**Lle i gael mwy o wybodaeth**

Tudalen 11

# 1 Cyflwyniad

Adran Gwaith a Phensiynau

Arian o'r Adran Gwaith a Phensiynau yw'r Taliad Tanwydd Gaeaf.



Efallai y gall yr henoed yng Nghymru a Lloegr gael Taliad Tanwydd Gaeaf i'w helpu gyda'u biliau gwresogi.

I gael mwy o wybodaeth ewch i [www.gov.uk/taliad-tanwydd-gaeaf](http://www.gov.uk/taliad-tanwydd-gaeaf)

2

# Pwy all gael y Taliad Tanwydd Gaeaf



Gallwch gael y Taliad Tanwydd Gaeaf os ydych yn cael:

- Credyd Pensiwn
- Credyd Cynhwysol
- Cymhorthdal Incwm

neu budd-dal prawf modd arall.

**Budd-daliadau prawf modd eraill:**




- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm
- Credyd Treth Plant
- Credyd Treth Gwaith.



Efallai y byddwch yn cael taliad os:

- Cawsoch eich geni ar neu cyn 22 Medi 1958 a
- Roeddech yn byw yng Nghymru neu Loegr yn ystod yr wythnos gymhwyso.




Mae’r wythnos gymhwyso yn dechrau ddydd Llun 16 Medi 2024.



Os ydych yn byw dramor mewn gwlad gymwys, efallai y byddwch yn gallu cael taliad.

Mae hyn yn dibynnu ar eich amgylchiadau.

## 3 Faint o Daliad Tanwydd Gaeaf a gewch




Mae Taliad Tanwydd Gaeaf naill ai'n £200 neu £300 y cartref.

**80+**

**Oed**

Cewch y swm uwch os ydych yn 80 oed neu'n hŷn.

# 4 Eich taliad a phryd y cewch



Cewch lythyr ym mis Hydref neu fis Tachwedd i ddweud wrthych beth yw cyfanswm y swm a sut y bydd yn cael ei dalu.

Bydd eich taliad awtomatig yn mynd i'r un cyfrif â'ch Credyd Pensiwn neu fudd-daliadau eraill.




Mae'r taliadau yn dod o ddiwedd mis Tachwedd 2024.

Nid oes rhaid i bobl gymwys sy'n byw yng Nghymru a Lloegr wneud cais.

# 5 Os ydych yn byw dramor



Os ydych yn byw dramor, bydd angen:

- Eich bod yn cael budd-dal prawf modd lle rydych yn byw
- Gwneud cais am Daliad Tanwydd Gaeaf hyd yn oed os gwnaethoch ei gael y llynedd.

Mae meini prawf eraill yn berthnasol.




Rhaid gwneud cais cyn 31 Mawrth 2025.

## Os ydych yn byw yn yr Alban

mygov.scot

Os ydych yn gymwys, bwriad Llywodraeth yr Alban yw y byddwch yn cael taliad cyfatebol y gaeaf hwn.

Bydd y taliad hwn yn cael ei wneud gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

I gael mwy o wybodaeth ewch i
www.mygov.scot/winter-fuel-payment-in-scotland

## Os ydych yn byw yng Ngogledd Iwerddon

Os ydych yn gymwys, cewch Daliad Tanwydd y Gaeaf gan yr Adran Cymunedau, a delir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

I gael mwy o wybodaeth ewch i
www.nidirect.gov.uk/articles/winter-fuel-payment

# 6 Lle i ddod o hyd i fwy o wybodaeth




Ewch i www.gov.uk/taliad-tanwydd-gaeaf am fwy o wybodaeth ar:

- Cymhwysedd
- Symiau
- Dyddiadau allweddol
- Y cais, os ydych yn byw dramor.